# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Ioan M. Richard | Adran Etholiadol: | Mawr |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Roedd fy nrws bob amser ar agor yn ward wledig Mawr.
Mae bywyd pentrefol yn wahanol i fywyd trefol. Mae bron fy holl etholwyr yn f'adnabod ac rwy'n adnabod y rhan fwyaf ohonyn nhw.
Fel cynghorydd sydd wedi gwasanaethu dros ddeng mlynedd ar hugain, mae etholwyr Ward Mawr yn gwybod y gallant alw arnaf yn y stryd; ymweld â'm cartref a'm ffonio unrhyw awr effro'r dydd ac ymatebaf cystal ag y gallaf i'w helpu.
Mae gan Ward Mawr y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Abertawe. Fel siaradwr Cymraeg balch fy hun, gallaf sgwrsio'n rhydd yn y ddwy iaith â'm hetholwyr sydd yn aml yn gwneud i bobl deimlo'n gartrefol.
Mae fy nrws bob amser ar agor i helpu unrhyw un y gallaf.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 17 | / | 18 | 94 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 4 | / | 5 | 80 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 19 | / | 19 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **40** | **/** | **42** | 95 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Cadw Coed | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **1** | **/** | **1** | **100** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Aelod o'r grŵp deuddeg cynghorydd sy'n rhan o unig Bwyllgor Cynllunio'r cyngor.
Mae swyddogion cynllunio bellach yn defnyddio pwerau swyddog dirprwyedig i benderfynu ar y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio.
Mae'r Pwyllgor Cynllunio o ddeuddeg cynghorydd bellach yn tueddu i benderfynu ar geisiadau o faint sylweddol yn unig neu geisiadau sy'n gynhennus ac yn peri pryderon cymunedol. Gall hyn achosi straen ac mae angen sylw craff ar ddyletswydd ddiduedd.
Euthum i lawer o ddigwyddiadau cyhoeddus yn fy ward. Er enghraifft:- Fi yw llywydd y grŵp henoed lleol ac, yn yr un modd, fi yw llywydd y gymdeithas hanes leol etc.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Aelod o'r grŵp deuddeg cynghorydd sy'n rhan o unig Bwyllgor Cynllunio'r cyngor.
Cafodd y pwyllgor hwn flwyddyn arbennig o brysur yn gweithio gydag uwch-swyddogion i lunio'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) drafft. Roedd yn cynnwys llond gwlad o gyfarfodydd ar y safle ac mewn ystafelloedd pwyllgor.
Y tu allan i'r cyngor, roeddwn wedi cymryd rhan mewn materion cadw tirwedd yn fy ward wledig, ac roeddwn wedi siarad a rhoi tystiolaeth fel tyst i ymchwiliadau cyhoeddus.
Y tu mewn i'r cyngor, nid oes gennyf chwip a siaredais yn y trafodaethau'n fynych.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i sawl sesiwn hyfforddi yr oeddwn yn eu hystyried yn hanfodol ac yn briodol i'm hanghenion yn y byd cyhoeddus hwn sydd bob amser yn newid. Mae'r rhain fel a ganlyn:

13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
12/04/2016 - Gloywi Arweiniad Dylunio Preswyl
08/03/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu
25/02/2016 - Pwyllgor Cynllunio - Hawliau Tramwy
25/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
09/12/2015 - Cyfrifoldeb Aelodau i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr dan y deddfau tai a chydraddoldeb newydd
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
12/10/2015 - Penderfynu ar Geisiadau am Statws Maes Tref neu Bentref

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ni ddilynais gyfarwyddyd chwip wleidyddol erioed fel mae llawer o gynghorwyr yn gwneud.
Pleidleisiais bob tro'n ôl fy marn a'm cydwybod fy hun a'r hyn a oedd orau i breswylwyr Ward Mawr ac ni phleidleisiais erioed yn ôl cyfarwyddiadau plaid wleidyddol.

Mae f'arwyddair gwasanaeth cyhoeddus, ers f'etholiad cyntaf dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, wedi bod yn hen ddihareb Gymraeg:-
“**Ym mhob braint y mae dyletswydd”.**
**“In every privilege there is a duty”.**

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 06.04.2016 |